



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Brexit a'n Tir:

Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru

Mae pethau ar fin newid

Bydd y Deyrnas Unedig (DU) yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE) mewn llai na blwyddyn. Does neb yn gwybod i sicrwydd beth sydd am ddigwydd, ond wedi gadael, bydd ein gallu i fasnachu mewn marchnadoedd a chystadlu ynddyn nhw yn newid. Mae hynny'n golygu y bydd gofyn inni wneud pethau'n wahanol ac mae hynny'n cynnwys sut rydyn ni'n eich cefnogi chi.

Nid yw'r Polisi Amaeth Cyffredin (PAC) presennol - yn enwedig Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) - yn gwneud digon i'n paratoi ar gyfer newid. Nid yw chwaith yn cael y gorau o dir Cymru er lles pobl Cymru.

Mae hynny'n golygu'r gorau i gyflogaeth, yr economi wledig, cymunedau a'n tirwedd. Mae gan dir Cymru a'r bobl sy'n ei reoli lawer iawn iawn i'w gynnig.

Ac am y tro cyntaf, mae gennym gyfle i lunio polisi sy'n unigryw Gymreig. Dyma'r cynigion ar gyfer Rhaglen Rheoli Tir newydd.

Egwyddorion newid

Mae gennym bum egwyddor ar gyfer newid.

Egwyddor 1 – Rhaid inni gadw'n rheolwyr tir ar y tir.

Egwyddor 2 – Mae cynhyrchu bwyd yn hanfodol i'n cenedl.

Egwyddor 3 – Rhaid sicrhau bod ein busnesau ffermio a choedwigaeth yn gallu bod yn ffyniannus a chryf, waeth sut Brexit gawn ni.

Egwyddor 4 – Bydd y cymorth a roddir yn y dyfodol yn canolbwyntio ar gael nwyddau cyhoeddus ychwanegol o'n tir.

Egwyddor 5 – Dylai'n cynlluniau newydd fod ar gael i bawb.





Beth rydyn ni'n ei gynnig

Rydyn ni'n cynnig Rhaglen Rheoli Tir newydd i gymryd lle'r PAC. Rydym am ei rannu'n ddau gynllun mawr a hyblyg i gymryd lle'r BPS, Glastir a rhannau eraill y Rhaglen Datblygu Gwledig. Y ddau gynllun fydd:

- Y Cynllun Cadernid Economaidd – buddsoddi mwn gweithgareddau economaidd, yn enwedig cynhyrchu bwyd a phren.
- Cynllun Nwyddau Cyhoeddus – cymorth uniongyrchol i ddarparu nwyddau cyhoeddus, yn enwedig er lles yr amgylchedd.

Bydd cysylltiadau agos rhwng y ddau gynllun a byddan nhw'n cael eu cynnal ar y cyd. Bydd llawer o ffermwyr yn cael elwa ar y ddau.

Y Cynllun Cadernid Economaidd

Bydd y Cynllun Cadernid Economaidd yn cael ei dargedu i wneud eich busnes yn gryfach ac yn fwy cynhyrchiol, yn enwedig ar gyfer cynhyrchu bwyd o ansawdd uchel.

Rhaid i'n busnesau ffermio a choedwigaeth fod yn economaidd gadarn os ydym am allu sicrhau'r amrywiaeth ehangaf o ganlyniadau er lles yr amgylchedd a chymdeithas.

Bydd gofyn i fusnesau allu cyfiawnhau ein bod yn buddsoddi ynddyn nhw, mewn newidiadau mân a buddsoddiadau mawr yn y gadwyn gyflenwi.

Bydd angen inni annog pobl i fuddsoddi, arloesi a datblygu sgiliau menter ar raddfa fach a mawr ac ym mhob cam o ddatblygiad busnes.

Nid oes rheswm yn y byd pam na all ffermwr gynhyrchu bwyd a nwyddau cyhoeddus gyda'i gilydd - mae cynhyrchiant fferm yn aml yn seiliedig ar adnoddau naturiol o ansawdd uchel.

Dyma'r prif feysydd y byddwn yn eu cefnogi

Cynyddu potensial y farchnad: Mae hi nawr yn bwysicach nag erioed meddwl am y cyfleoedd sy'n bod yn y farchnad i werthu'ch cynnyrch. Amod o'n help yn y dyfodol yw'ch bod yn cadw'ch marchnadoedd presennol ac yn datblygu cyfleoedd newydd yn y DU a thu hwnt.

Gwella cynhyrchiant: Bydd cynhyrchu mwy am lai yn hanfodol ichi allu bod yn gystadleuol a chryf ym marchnadoedd domestig a rhyngwladol y dyfodol. Byddwn yn buddsoddi gyda golwg ar leihau'ch costau cynhyrchu ac ychwanegu at werth eich cynnyrch sylfaenol ar hyd y gadwyn gyflenwi. Mae codi safonau iechyd a lles anifeiliaid yn hanfodol i wella cynhyrchiant.

Arallgyfeirio: Bydd gofyn i reolwyr tir gryfhau'u ffrydiau incwm trwy arallgyfeirio. Gall hynny gynnwys newid yr hyn rydych yn ei gynhyrchu neu'n ei dyfu, cynhyrchu nwyddau cyhoeddus neu ddatblygu cyfleoedd heblaw cynhyrchu cynnyrch sylfaenol, fel ynni adnewyddadwy a thwristiaeth.

Rheoli risg yn effeithiol: Er mwyn cadw'ch busnes yn gryf, rhaid rheoli risgiau gweithredol a masnachol. Byddwn yn annog cyfleoedd masnachol er mwyn lleihau canlyniadau ariannol y risgiau hyn a helpu busnesau i reoli'r risgiau hyn eu hunain.

Cyfnewid gwybodaeth a sgiliau ac arloesi: Defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf, datblygu sgiliau ac arloesi yw rhai o'r ffyrdd gorau i sicrhau bod ein busnesau ffermio'n parhau i fod yn gystadleuol a chynhyrchiol. Dyma fydd prif elfennau'n cymorth iddynt yn y dyfodol, gan adeiladu ar lwyddiant y rhaglen Cyswllt Ffermio.



Y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus

Bydd y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus yn cynnig incwm newydd i reolwyr tir fel tâl am ddefnyddio'u tir i ddarparu nwyddau cyhoeddus.

Nwyddau cyhoeddus yw'r gwasanaethau hynny a ddaw o'r tir sydd eu hangen arnom i gyd ond nad oes marchnad effeithiol amdanynt. Maen nhw'n wasanaethau yr ydym i gyd yn dibynnu arnyn

nhw, a byddan nhw hyd yn oed yn bwysicach i genedlaethau'r dyfodol.

Byddwn ni'n eu rheoli trwy gytundebau penodol amlflwydd mwy hyblyg na Glastir.

Bydd amrywiaeth o opsiynau, i ateb gofyn pob math o reolwyr tir.

Dyma'r prif feysydd y byddwn yn eu cefnogi

Lleihau perygl llifogydd: Wrth i'r perygl o lifogydd gynyddu, mae'n bwysig ein bod yn adfer nodweddion yn y dirwedd sy'n arafu llif dŵr. Gallwch leihau'r perygl o lifogydd trwy blannu coed ac adfer corsydd a chaeau gwlyb ar eich tir. Bydd hynny'n arafu llif dŵr a'r perygl i gymunedau ymhellach i lawr y dyffryn.

Datgarboneiddio: Bydd hinsawdd sy'n newid yn cael mwy a mwy o effaith ar batrymau'n tywydd. Gallwn ddisgwyl mwy o lifogydd yn y gaeaf a mwy o sychder yn yr haf gan effeithio ar gyflenwadau dŵr i gartrefi a thir ffermio. Gallwch leihau'r carbon y mae'ch tir yn ei gynhyrchu trwy adfer mawnogydd a phlannu coed.

Cynefin: Bydd cynefinoedd sydd mewn cyflwr da yn lleihau llifogydd, yn helpu i ddatgarboneiddio ac yn lleihau llygredd dŵr ac aer sy'n ddrwg i'n hiechyd. Gan ddibynnu ar amodau'ch fferm, gallwch greu a gwella cynefinoedd trwy er enghraifft, cael gwared ar blanhigion ymledol, creu gweirgloddiau neu roi gwartheg i bori ucheldir sy'n cael ei danbori. Bydd cynefinoedd gwell yn gwneud y dirwedd yn fwy deniadol - fydd yn rhoi hwb i'n diwydiant twristiaeth pwysig.

Newid i'r cynlluniau newydd

Ni fydd unrhyw newid i'r BPS yn 2018 nac yn 2019 a byddwn yn anrhydeddu pob contract Glastir.

Yn 2020, byddwn yn dechrau'r newid i'r cynlluniau newydd. Bydd hynny'n cynnwys gostyngiad graddol yn y BPS wrth inni roi'r cynlluniau newydd ar waith.

Ein nod yw gweld y ddau gynllun newydd yn gweithio'n llawn erbyn 2025.

Rydyn ni'n sylweddoli na ddaw'r newidiadau hyn ar chwarae bach ond bob cam o'r ffordd, byddwn am symleiddio'r drefn ac yn sicrhau bod popeth yn digwydd mor esmwyth â phosib.

Wrth inni newid, dylai ffermwyr fanteisio ar y cyngor sydd ar gael iddyn nhw. Fuodd hi erioed yn bwysicach edrych beth sydd gan Cyswllt Ffermio i'w gynnig ichi, yn enwedig cyngor ar y newid i fusnesau.

Yn ogystal â newid y cynlluniau taliadau, rydyn ni hefyd am ddarparu gwasanaethau cyngori gwell.

Bydd y gwasanaethau hyn yn helpu rheolwyr tir i ddefnyddio'u sgiliau a'u profiad i'r eithaf i gael y gorau o'r cynlluniau newydd hyn.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Byddwn nawr yn ymgynghori'n eang ar ein cynigion tan 30 Hydref 2018.

Byddwn yn defnyddio'r ymatebion i ddatblygu cynlluniau manylach gan ymgynghori ar y rheini yng Ngwanwyn 2019.

Ni chaiff y cynllun BPS ei newid tan y byddwn wedi ymgynghori ymhellach.

Sut ca i wybod mwy?

Rydyn ni am weithio gyda chi i greu'r cynlluniau gorau posib er lles Cymru. Hoffwn eich annog i ymateb i'r ymgynghoriad, sydd ar y ddolen isod.

Mae Llywodraeth Cymru am drafod y cynigion hyn â chi'n bersonol a bydd yn cynnal cyfres o gyfarfodydd ym mhob rhan o'r wlad dros y misoedd i ddod.

Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn bresennol mewn digwyddiadau dros yr haf a'r hydref. Bydd croeso ichi ddod draw at swyddogion i drafod neu i ofyn cwestiwn.

www.llyw.cymru/ymgyngoriadau

